RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
12/2016
DYDDIAD CYHOEDDI:
16/03/16

# Papur gwyntyllu ar yr Opsiynau Posibl ar gyfer Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd Dosbarthiadau Chwech yng Nghymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978-1-4734-6028-7

Papur gwyntyllu ar yr opsiynau posibl ar gyfer gwella perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech yng Nghymru

Yr Athro Sue Maguire
Maguire Policy Research

Maguire Policy Research

Barn yr ymchwilwyr sydd yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Joanne Corke
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 1138
E-bost: research.evaluation@wales.gsi.gov.uk

ISBN: 978-1-4734-6028-7
© Hawlfraint y Goron 2016

OGL

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan drwydded v3.0 Llywodraeth Agored, oni nodir fel arall.

http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

**Tabl Cynnwys**


1. Cyflwyniad/Cefndir ....................................................................1

2. Chweched Dosbarth Ysgolion yng Nghymru: Problemau a heriau......8

3. Opsiynau ar gyfer symud ymlaen........................................................26

4. Casgliadau ac argymhellion ................................................................37

Llyfryddiaeth...............................................................................................43

Atodiad A: Canllaw i'r drafodaeth gyda rhanddeiliaid ................................59

## 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Athro Sue Maguire o Maguire Policy Research i baratoi papur ysgrif ystyriol ar wella perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech yng Nghymru.

**Amcanion yr astudiaeth**

1.2 Amcan yr ymchwil fel y'i nodwyd oedd paratoi papur sy'n cyflwyno'r opsiynau posibl sydd ar gael i Lywodraeth Cymru er mwyn gwella perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech yng Nghymru, yn seiliedig ar adolygiad o'r dystiolaeth gadarn ddiweddaraf. O fewn yr amcan hwn, roedd rhaid rhoi sylw i'r ffactorau allweddol canlynol:

1. Cyd-destun polisi addysg Llywodraeth Cymru.
2. Rôl y Gymraeg yn y polisi hwnnw.
3. Anghenion a blaenoriaethau gwahanol randdeiliaid.
4. Sut mae gwahanol randdeiliaid yn diffinio ac yn defnyddio 'effeithlonrwydd' a 'perfformiad'.
5. Pwysigrwydd dewis i ddysgwyr, yn arbennig mewn perthynas â chyfrwng y ddarpariaeth a darpariaeth seiliedig ar ffydd.
6. Dulliau o wella ansawdd darpariaeth.
7. Sicrhau bod llwybrau academaidd a galwedigaethol yn ennyn yr un faint o barch.
8. Dylanwad y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru).
9. Effaith dimensiynau trefol a gwledig ar ddarpariaeth a dysgwyr.

1.3 Er mwyn cyflawni'r amcanion, roedd y prif gwestiynau i'w hateb yn ystod yr astudiaeth yn cynnwys:

- Beth yw maint delfrydol chweched dosbarth?
- Pa set o opsiynau sydd eu hangen i ddiwallu amrywiaeth o anghenion?
- Pa ffactorau sydd angen eu hystyried mewn perthynas â'r nod o gynnig darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg ac yn ddwyieithog?
- Pa ffactorau sydd angen eu hystyried mewn perthynas ag opsiynau cyflenwi seiliedig ar ffydd?

- A oes angen i Lywodraeth Cymru wneud rhywbeth am ddosbarthiadau chwech er mwyn gwella effeithlonrwydd a’r dewis i ddysgwyr?
- A oes gormod o ddosbarthiadau chwech?
- A oes angen rhestr o ddewisiadau ar Lywodraeth Cymru i ystyried ffyrdd gwahanol o symud ymlaen?

**Methodoleg**

1.4 Roedd dwy brif elfen i’r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Yn gyntaf, roedd yn ceisio nodi’r llenyddiaeth, dogfennau polisi a thystiolaeth werthuso mwyaf perthnasol er mwyn cynorthwyo i ddatblygu’r opsiynau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech yng Nghymru. Wedyn aethpwyd ati i gael adborth gan randdeiliaid allweddol ar y materion sy’n effeithio ar ddarpariaeth dosbarth chwech yng Nghymru ac effeithlonrwydd yr opsiynau sy’n deillio o’r adolygiad o bolisi a thystiolaeth, a dadansoddiad a synthesis o’r holl dystiolaeth a gasglwyd. Anfonodd Llywodraeth Cymru lythyr at amrywiaeth o randdeiliaid yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil. Cafodd pob ymatebydd a ddywedodd ei fod yn barod i gymryd rhan ei gyfweld. Hefyd, nodwyd pobl/cyrff eraill i gael eu cyfweld wedi iddynt gael eu henwebu gan randdeiliaid allweddol yn y sampl cyntaf mewn dull ‘pelen eira’. Caiff y dull cyffredinol o fodloni nodau ac amcanion yr astudiaeth ei grynhoi yn y diagram isod:

**Ffigur 1: Y dull yn gryno**

| | |
|---|---|
| Sefydlu | •Cadarnhau'r fethodoleg a'r amserlen |
| Adolygu polisi a thystiolaeth | •Adolygu cyhoeddiadau a ffynonellau tystiolaeth perthnasol<br>•Nodi themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r dystiolaeth |
| Cyfweliadau â rhanddeiliaid | •Trafod cyd-destun ysgolion chweched dosbarth<br>•Cael adborth ar yr opsiynau polisi posibl |
| Dadansoddi a synthesis | •Asesu goblygiadau polisi y dystiolaeth<br>•Datblygu opsiynau polisi posibl |
| Adroddiad terfynol | •Cynnwys adborth o Grŵp Ymchwil y Prosiect<br>•Gwneud argymhellion ar gyfer polisi ac ymarfer |

1.5 Yn ogystal â chytuno ar y fethodoleg, roedd y cyfarfod sefydlu yn gyfle i egluro'r amserlenni a'r gwaith sydd i'w gyflawni mewn perthynas â chynnydd y gwaith ymchwil, a chadarnhau manylion cysylltu'r prif randdeiliaid.

### Adolygiad o bolisi a thystiolaeth

1.6 Prif dasg yr adolygiad o bolisi a thystiolaeth oedd archwilio'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â'r ffactorau allweddol sydd angen sylw, fel yr amlinellwyd yn y fanyleb ymchwil ac y nodwyd yn amcanion yr astudiaeth uchod. Ffynonellau'r chwiliad hwn am ddogfennau perthnasol yn y lle cyntaf oedd dau chwiliad llenyddiaeth, y ddau wedi'u trefnu gan dîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, gydag un yn cael ei gynnal gan yr adran Gwasanaethau Llyfrgell ac Archifau. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gefndir a datblygiad polisi addysg Llywodraeth Cymru, yn enwedig yn y maes ôl-16. Yn ogystal â'r cyhoeddiadau sy'n canolbwyntio ar Gymru, edrychwyd ar ddeunydd o lywodraethau eraill y DU a'r UE ac asiantaethau rhyngwladol, fel yr OECD, yn ogystal ag unrhyw ymchwil a wnaed gan y sector ôl-16 ei hun. Defnyddiwyd y prif chwilotwyr, fel y British Education Index, ERIC, Ingenta ac Emerald i chwilio'r llenyddiaeth academaidd. Roedd y

termau chwilio a ddefnyddiwyd i ganfod llenyddiaeth berthnasol yn cynnwys: 'post-16 education', 'sixth form schools', 'school sixth forms', 'further education colleges', 'school sixth form size', 'class size', 'Welsh language education', 'efficiency and performance in education' a 'learner choice'.

1.7 O gofio pwysigrwydd yr amgylchedd polisi ôl-16 newidiol, roedd y chwiliad yn canolbwyntio ar ddeunydd a gyhoeddwyd sydd wedi'i gynhyrchu yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y ffocws pennaf ar ddata ac adroddiadau o'r DU (ac yn enwedig rhai a oedd yn edrych ar Gymru yn benodol neu'n rhannol). Yn ogystal ag adroddiadau ymchwil, cafodd tystiolaeth a dogfennau polisi eu cynnwys hefyd, er enghraifft, o adroddiadau arolygu ôl-16 unigol a baratowyd gan Estyn ac Ofsted.

1.8 Ar sail y dystiolaeth sy'n deillio o'r llenyddiaeth, lluniwyd cyfres o opsiynau posibl ar gyfer newid i wella perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech yng Nghymru. Roedd y gyfres hon o opsiynau yn deillio o faterion perthnasol a oedd yn deillio o'r adolygiad llenyddiaeth ac, yn fwy sylweddol, o'r adolygiad o waith datblygu a gweithredu polisi yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf a gwersi a ddysgwyd o ganlyniad.

**Cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol**

1.9 Cynhaliwyd ymgynghoriad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn gyda chyfanswm o 18 unigolyn o 14 o sefydliadau cyflawni a grwpiau buddiant ôl-16 allweddol yng Nghymru. Y prif faen prawf ar gyfer penderfynu pwy ddylai gael ei gynnwys ar y rhestr oedd eu bod yn cynrychioli un o'r sefydliadau allweddol ar lefel uchel, ac y gallent gynnig barn wybodus ar faterion yn ymwneud â sut gellir mynd i'r afael â'r gwahanol anghenion a blaenoriaethau posibl. Roedd y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn dod o'r sefydliadau canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Gyrfa Cymru

- Cyngor Sir Gâr
- Coleg Y Cymoedd
- ColegauCymru/CollegesWales
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Dinbych
- Estyn
- Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd a Môn
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Dosbarth Torfaen
- Rhwydwaith 14-19 Cymru
- Uned y Gymraeg mewn Addysg (Llywodraeth Cymru)

1.10 Diben y cyfweliadau oedd:

a) Creu darlun o safbwyntiau am ddarpariaeth ôl-16 yng Nghymru (gyda ffocws penodol ar berfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech).
b) Deall y materion craidd tybiedig sydd angen sylw i lywio unrhyw newidiadau sydd mewn golwg
c) Amlinellu a thrafod opsiynau posibl ar gyfer newid a sut mae'r rhain i fod i weithio yn ymarferol ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl ifanc mewn amgylchiadau lleol gwahanol a'r manteision posibl i ymatebwyr, derbynyddion a Llywodraeth Cymru.
d) Lle y gwnaed cais amdano, anfonwyd y canllaw ar gyfer y drafodaeth a ddefnyddiwyd yn y cyfweliadau (gweler Atodiad A) at y rhanddeiliaid dan sylw cyn y cyfweliad, er mwyn rhoi cyfle iddynt ddarparu ymateb gwybodus ac ystyriol.

**Cyd-destun polisi**

1.11 Caiff darpariaeth dysgu 14-19 mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru ei phennu gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, rhwydweithiau 14-19, ysgolion a cholegau i weithio gyda Gweinidogion Cymru i ddarparu cwricwla lleol

sy'n cynnwys ystod eang o gyrsiau a chyfleoedd i ddysgwyr. Mae'r cwricwla lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed yn cynnwys lleiafswm o 30 cwrs astudio ar lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCCh) a'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol , a fydd yn cynnwys o leiaf bum cwrs cyffredinol a phum cwrs galwedigaethol (Llywodraeth Cymru, 2014). Fel rheol, mae ysgolion a cholegau yn cydweithio er mwyn gallu cynnig yr amrywiaeth hwn. Un o nodau strategol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010) yw "gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus". Roedd cydweithio i gyflawni Mesur Dysgu a Sgiliau (2009) yn cynnwys blaenoriaethu adnoddau i sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg ar gael er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr un parch. Ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, roedd hyn yn golygu bod gofyn iddynt sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad i gyrsiau ôl-14 hen a newydd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

1.12 Mae darpariaeth addysg ôl-16 mewn ysgolion yn 'economi gymysg' i bob pwrpas, sy'n cynnwys sefydliadau trydyddol, canolfannau chweched dosbarth ac ysgolion 11-18. Mae yna wahaniaethau o fewn a rhwng awdurdodau lleol, sydd wedi tyfu i adlewyrchu anghenion amrywiol cymunedau lleol mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig. Mae amrywiadau o fewn a rhwng awdurdodau lleol, o ran maint, graddfa a chyfansoddiad dosbarthiadau chwech ledled Cymru wedi bod yn broblem ers blynyddoedd lawer. Mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, fel Sir Benfro, mae hyn wedi arwain at adolygiad o ddarpariaeth ôl-16, ac mae disgwyl i nifer y myfyrwyr dosbarth chwech yn yr ardal ostwng 23 y cant rhwng 2012 a 2018 (Cyngor Sir Penfro, 2012:55).

1.13 Cyhoeddwyd polisi Llywodraeth Cymru i drawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru ddechrau tymor yr hydref 2008 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Roedd yn nodi ei bwriad i sicrhau cynlluniau amlinellol i wella cyfleoedd dysgu i bob cymuned

yng Nghymru. Yn y lle cyntaf, roedd y ffocws ar ddarpariaeth ôl-16, yn cynnwys colegau AB a dosbarthiadau chwech, i wella'r dewis i ddysgwyr, a lleihau dyblygu darpariaeth. Penderfynodd Llywodraeth Cymru na fyddai'n pennu un model neu fframwaith pendant ar gyfer trawsnewid y ddarpariaeth ôl-16. Yn hytrach, mabwysiadwyd dull hyblyg, a oedd yn galluogi rhanddeiliaid, sy'n adnabod eu hardaloedd lleol yn well na neb, i lywio newid mewn ffordd a oedd yn gwasanaethu pob ardal ddaearyddol yng Nghymru, a hynny'n seiliedig ar anghenion a dyheadau lleol.

1.14 Roedd yr *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* (Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012) yn pwysleisio bod mecanweithiau cyllido i gefnogi ysgolion a cholegau yn aml yn tanseilio ethos gweithio mewn partneriaeth. Gall cystadleuaeth rhwng darparwyr i gadw dysgwyr, er mwyn cynnal cyllid ar gyfer cyrsiau a darpariaeth dosbarth chwech, olygu nad yw myfyrwyr yn cael arweiniad diduedd er mwyn gwneud dewisiadau seiliedig ar wybodaeth. Ymhellach, gall yr ymdrech i gadw cyllid arwain at ddyblygu darpariaeth yn lleol a bod dosbarthiadau gwersi a dosbarthiadau chwech yn gyffredinol yn aros yn fach. Roedd astudiaeth ddiweddar o ysgolion Cymraeg yng Nghymru (OECD, 2014) yn argymell bod angen symud tuag at 'simple, financially stable and efficient funding arrangements for Welsh schools' (t.57).

## 2. Chweched Dosbarth Ysgolion yng Nghymru: Problemau a heriau

2.1 Cynhaliwyd yr ymchwil ddesg a'r cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol gyda'r nod o gael data a thystiolaeth yn ymwneud â chwe thema allweddol. Roedd y gwaith ymchwil hwn yn ceisio canfod y llenyddiaeth, datblygiad polisi a gwerthusiadau tystiolaeth mwyaf perthnasol i helpu i ddatblygu cyfres o opsiynau posibl ar gyfer Llywodraeth Cymru i wella perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech ysgolion. Dyma'r chwe thema allweddol:

- Beth a olygwn wrth ddefnyddio'r termau 'effeithlonrwydd' a 'perfformiad'?
- y drafodaeth am faint ysgolion/maint dosbarthiadau delfrydol
- dewis i ddysgwyr a dylanwadau Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)
- pontio'r bwlch rhwng dysgu academaidd a dysgu galwedigaethol
- darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- yr ardal leol – ffactorau trefol a gwledig.

### Beth a olygwn wrth ddefnyddio'r termau 'effeithlonrwydd' a 'perfformiad'?

2.2 Mae trafodaethau ynghylch gwella effeithlonrwydd a pherfformiad yng nghyd-destun dysgu ôl-16 wedi dod yn fwy amlwg yn ddiweddar, gyda llai o gyllid a lleihad yn niferoedd myfyrwyr yn y blynyddoedd i ddod. Mae defnyddio termau economeg mewn perthynas ag addysg yn gallu golygu, yn syml, sicrhau mwy o *effeithlonrwydd* drwy leihau cyfartaledd cost darpariaeth (y myfyriwr). Dadleua Conlon a Halterback (2004) fod modd gwella effeithlonrwydd drwy ganolbwyntio darpariaeth o fewn nifer llai o ddarparwyr mwy (h.y. sefydliadau addysgol mwy, fel colegau chweched dosbarth). Fodd bynnag, mae gwella effeithlonrwydd yng nghyd-destun addysg yn tueddu i anwybyddu materion yn ymwneud ag ansawdd darpariaeth a mynediad at ddarpariaeth. Mae Conlon a Halterback yn datgan yn hytrach nag *effeithlonrwydd*, y dylai'r drafodaeth ganolbwyntio ar

sicrhau darpariaeth fwy *cost-effeithiol,* gan fod hyn yn dadansoddi ansawdd darpariaeth hefyd. Mae gwella cost-effeithiolrwydd yn ymwneud â lleihau'r costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chyflawni deilliannau (addysgol) penodol.

2.3 Mae'r termau 'effeithlonrwydd' a 'perfformiad' yn aml yn cael eu cysylltu â sut mae marchnad yn gweithredu, fel y dangosir gan yr adroddiad arloesol, '*Trading Places'*, a gafodd ei gyhoeddi ym 1996, ac a oedd yn cydnabod bodolaeth lled-farchnad yn y byd addysg (Comisiwn Archwilio, 1996). Roedd yn datgan bod angen gwaith ymyrraeth a chydgysylltu effeithiol yn lleol er mwyn rheoli'r farchnad (t.52). Mynegwyd pryder gan lawer o'r rhanddeiliaid allweddol a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r astudiaeth hon, yn yr hinsawdd gyfredol o gystadleuaeth gynyddol rhwng darparwyr am ddysgwyr ôl-16 a chyllidebau sy'n crebachu, nad oes cyfatebiaeth yn rhy aml o lawer rhwng polisïau a chyfrifoldebau, o ran cymhellion i ALlau, ysgolion a darparwyr AB weithio gyda'i gilydd i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

*'Cael gwared ar y 'ni a nhw'– rhaid cynnwys pob rhanddeiliad'*

Rhanddeiliad Allweddol 2

'*Mae yna achos cryf a brys yn sgil yr hinsawdd ariannol rydym yn ei hwynebu yn y pum mlynedd nesaf, a'r 10 mlynedd nesaf o bosib. Rydym ni'n gwario llai ar ôl-16 ac mae'r ddemograffeg yn newid - nawr yw'r amser i Lywodraeth Cymru gael polisi diamwys ar addysg gyffredinol a'i roi ar waith yn AB drwy'r sector trydyddol neu gynghreiriau rhwng ysgolion a cholegau. Bydd dosbarthiadau chwech yn cael eu cadw ond mae angen polisi sy'n pennu bod yn rhaid i awdurdodau lleol brofi bod chweched dosbarth â llai na 200 yn darparu darpariaeth digon eang/manwl, yn gweithio'n effeithiol gyda'r darparwr AB ac yn cael canlyniadau da. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol ac ysgolion yw dangos y dylai ysgolion aros ar agor yn hytrach na'r sefyllfa gyfredol y dylai popeth barhau doed a ddel.*'

Rhanddeiliad Allweddol 8

2.4 Dadleuodd y Comisiwn Archwilio (2011) ei bod hi'n anodd iawn cymhwyso agweddau traddodiadol at werth am arian i wariant ysgolion. Mewn ysgolion, diffinnir gwerth am arian fel darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, sef, mewn geiriau eraill, gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i bob pwrpas (Comisiwn Archwili, 2009). Yn aml, mae ystod eang o newidynnau, llawer ohonynt yn anodd eu mesur, yn effeithio ar sut mae ysgolion yn cael eu trefnu i gyflawni eu hamcanion. Mae'r rhain yn cynnwys ansawdd athrawon, dulliau addysgu ac ansawdd arweinwyr yr ysgol. Yn adroddiad y Comisiwn Archwilio (2011), caiff *effeithlonrwydd* ei ddiffinio fel y berthynas rhwng allbynnau a'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio i'w cynhyrchu. Mae nifer o sylwebwyr (Yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth, 1985; Y Comisiwn Archwilio, 1996; Foreman-Peck a Foreman-Peck, 2006; Conlon a Halterback, 2014) yn tynnu sylw at y risg uwch o groes-gymhorthdalu o weddill cyllideb yr ysgol mewn dosbarthiadau chwech bach mewn ysgolion (llai na 150 o fyfyrwyr). Mae hyn yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach i ba mor gost-effeithiol ydynt, eu hyfywedd yn yr hirdymor ac effaith llai o adnoddau yn cael eu dyrannu i ddisgyblion iau ysgolion.

2.5 Mae diffinio a gwerthuso allbynnau a pherfformiad yn gyforiog o anawsterau hefyd. Dywedodd Estyn (2010), yn ei adolygiad o gynnydd o ran gweithredu dewis ehangach a'r craidd dysgu ar gyfer dysgwyr 14-19, nad oedd ansawdd, deilliannau, effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd darpariaeth wedi'u gwerthuso'n ddigonol. Beirniadaeth gyffredin ymhlith llawer o'r cyfranwyr allweddol oedd diffyg cymaroldeb rhwng ysgolion a cholegau AB, o ran eu data ar berfformiad. Mae mesurau o berfformiad ysgolion yn ymwneud â deilliannau cymwysterau yn seiliedig ar gyfran y myfyrwyr sy'n sefyll arholiadau, ond caiff colegau eu mesur yn ôl nifer y myfyrwyr sy'n cychwyn rhaglenni dysgu (h.y. cyfraddau cadw), yn ogystal â nifer y myfyrwyr sy'n cychwyn rhaglenni dysgu ac yn eu cwblhau'n llwyddiannus. Ymhellach, o ystyried bod cyrhaeddiad academaidd ym Mlwyddyn 11 yn amrywio'n helaeth rhwng grwpiau o ddysgwyr ôl-16, argymhellwyd y dylai mesurau perfformiad gofnodi'r pellter a

deithiwyd, yn ogystal â chymwysterau 'caled'. Barn gyffredin oedd bod angen data cymaradwy ar gyfer perfformiad mewn cymwysterau rhwng darparwyr ôl-16 i fod yn sail ar gyfer penderfyniadau am ddarpariaeth ôl-16 yng Nghymru yn y dyfodol. Roedd Hill (2013) yn argymell cyflwyno mesurau cyffredin ar gyfer asesu ac adrodd ar berfformiad ar gyfer pob darparwr ôl-16 ledled Cymru. Yn ôl adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2011) yn Lloegr, yn wahanol i golegau, nid oedd dull cyson o fynd i'r afael â pherfformiad gwael mewn dosbarthiadau chwech mewn ysgolion. Ategwyd y farn hon yng Nghymru gan adborth rhai o'r rhanddeiliaid allweddol, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector ôl-16.

2.6 Er bod mesurau effeithlonrwydd a pherfformiad yn tueddu i ganolbwyntio ar fanteision lleihau costau drwy ganolbwyntio darpariaeth mewn llai o ganolfannau chweched dosbarth gyda dosbarthiadau mwy o faint, mae astudiaethau amrywiol o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi tynnu sylw at heriau, o ran eu cyflawni, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Maent yn ymwneud â chostau cludiant uchel, effaith symud dysgwyr rhwng darparwyr i gael mynediad at ddarpariaeth ar y dysgwyr hynny ac, yn hollbwysig, diffyg tystiolaeth o sut mae gwasgaru rhagor ar fyfyrwyr rhwng ardaloedd yn effeithio ar gyfraddau cadw a chyflawni yn y sector ôl-16.

### Maint ysgolion/maint dosbarthiadau

2.7 Mae'n anorfod bod trafodaethau am effeithlonrwydd a pherfformiad mewn addysg yn cynnwys elfen o drafod am faint delfrydol ysgolion a dosbarthiadau ac, yng nghyd-destun dosbarthiadau chwech ysgolion, y maint y mae'n rhaid i ysgolion fod i sicrhau eu bod yn gost-effeithiol. Mae sawl adolygiad yn dod i'r casgliad mai maint ysgolion sy'n cael y dylanwad mwyaf ar fyfyrwyr difreintiedig, o ran eu bod yn perfformio'n well mewn ysgolion llai. Fodd bynnag, er nad oes tystiolaeth o berthynas gyson rhwng maint ysgolion a lefelau cyrhaeddiad yn y llenyddiaeth academaidd, mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n canolbwyntio ar naill ai ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd, yn

hytrach nag addysg ôl-16 (Newman et al, 2006; Garrett et al, 2004; De Maeyer et al, 2010). Yn ogystal, mae llawer o’r trafodaethau am faint ysgolion yn deillio o dystiolaeth ymchwil o America, ac felly efallai nad yw’n cynrychioli’r sefyllfa mewn gwledydd eraill. Hefyd, mae diffyg sail dystiolaeth am effaith newidiadau mewn maint ysgolion ar ddeilliannau gwybyddol ac anwybyddol (Luyten et al, 2014). Yn ôl Estyn (2010), yng Nghymru, mae canlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd mawr yn well na rhai ysgolion uwchradd bach a chanolig ar gyfer bron pob mesur. Priodolwyd hyn, yn rhannol, i ffigurau a oedd yn awgrymu bod llai o amddifadedd mewn ysgolion uwchradd mawr. Felly, mae ysgolion uwchradd bach a chanolig yn tueddu i fod â chyfrannau uwch o fyfyrwyr difreintiedig.

2.8 Er mwyn i ddosbarth chwech ysgol fod yn hyfyw, y farn gyffredin yn y llenyddiaeth oedd y dylai gynnwys 150 o fyfyrwyr o leiaf (ar draws Blynyddoedd 12 a 13). Roedd y ffigur hwn yn deillio o *Trading Places* (1996) y Comisiwn Archwilio ac adroddiad cynharach o lawer yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth, *Better Schools* (1985), a oedd yn barnu bod dosbarthiadau chwech bach yn fwy tebygol o wynebu anawsterau ariannol neu addysgol ar ôl disgyn o dan drothwy penodol (tua 150 o fyfyrwyr). Er hynny, roedd y ddau adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud y gellir sicrhau hyfywedd o ran bod yn gost-effeithiol os yw ysgolion yn cydweithio i gynnig ystod lawn o opsiynau. Roedd adroddiad gan Ofsted (1996) yn dweud bod dosbarth chwech ysgol yn gallu bod yn hyfyw gyda llai na 150 o fyfyrwyr os oedd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gyfyngedig. Felly, bydd maint priodol dosbarth chwech yn amrywio, yn dibynnu ar yr ystod o gyrsiau sy’n cael eu cynnig, darpariaeth iaith, dewis seiliedig ar ffydd a’r ardal leol dan sylw. Dadleuodd Estyn (2005) fod angen mwy o ymchwil i bennu a oedd y trothwy o 150 yn ddilys o hyd fel arwydd o hyfywedd chweched dosbarth.

2.9 Dyma ganfyddiadau Owen et al (2006) am effeithlonrwydd maint dosbarthiadau chwech:

- mae'r rheini sydd â thipyn llai na 200 o fyfyrwyr Lefel A angen cymhorthdal sylweddol gan weddill cyllideb yr ysgol, hyd yn oed y rhai sy'n cynnig dewis cyfyngedig o bynciau;
- mae'r rheini â rhwng 200 a 500 o fyfyrwyr yn gallu cynnig darpariaeth effeithiol ond dim ond trwy gyfyngu ar ddewis;
- mae'r rheini â 500+ o fyfyrwyr yn gallu cynnig dewis eang o bynciau a chostau is fesul uned, ond mae arbedion maint cymharol fach yn parhau hyd at 1000 o fyfyrwyr, a thu hwnt o bosibl.

2.10 Beirniadwyd *Trading Places* (a oedd yn datgan y dylai dosbarth chwech gael isafswm o 150 o fyfyrwyr) am ei fod yn 'understates the size of sixth form now required for viability, nor did it quantify the costs of provision below the size that it identified as the minimum required for viability' (Owen et al, 2006, t. 38). Yn fwyaf diweddar, argymhellodd Cymdeithas y Colegau yn Lloegr y dylid gofyn i ysgolion a cholegau ystyried uno'u dosbarthiadau chwech gyda'r nod na fyddai'r un dosbarth chwech â llai na 250 o fyfyrwyr (AoC, 2015, t.2).

2.11 Fel yn achos maint ysgolion, mae ymchwil i faint dosbarthiadau'n canolbwyntio'n bennaf ar dystiolaeth o ysgolion cynradd ac uwchradd yn hytrach na dysgu ôl-16. O fewn y data hwn, ceir cryn ddadlau ynghylch dehongli'r dystiolaeth a'r pwysau y dylid ei roi iddi. Dywed Gibbons a McNally (2013) mai prin yw'r astudiaethau trylwyr sy'n edrych ar effaith maint dosbarthiadau yn y DU ac, yn gyffredinol, mae mwy o astudiaethau sy'n dangos effaith gadarnhaol ar adnoddau mewn ysgolion cynradd ac yn y blynyddoedd cynnar nag mewn addysg uwchradd. Ymhellach, maent yn dadlau bod OECD wedi dangos, ar draws gwledydd, nad oes tystiolaeth sy'n dangos bod adnoddau sy'n cael eu gwario ar leihau maint dosbarthiadau yn y DU yn gynhyrchiol. Caiff y canfyddiad hwn ei ategu gan adroddiad yr Adran Addysg (2011), er ei fod yn gwneud y pwynt ei bod hi'n anodd

asesu cymaroldeb rhwng gwledydd, oherwydd yr amrywiadau rhwng gwahanol systemau addysgol. Canfu Altinok a Kingdon (2009) fod effaith maint dosbarthiadau, os yw'n bodoli o gwbl, yn llai mewn rhanbarthau ag athrawon o ansawdd uchel. Dywedodd yr Adran Addysg (2011) nad oedd polisïau lleihau maint dosbarthiadau yn cynrychioli gwerth am arian, o ran codi cyrhaeddiad disgyblion, a bod adnoddau yn rhoi canlyniadau mwy effeithlon mewn meysydd fel cynyddu effeithiolrwydd athrawon.

2.12 O ran dosbarthiadau chwech ysgolion, dywedodd yr NUT (2012) na ddylai dosbarthiadau chweched dosbarth gynnwys mwy na deg myfyriwr. Fodd bynnag, argymhelliad yw hwn ac nid yw'n ofyniad statudol. Nid yw canllawiau Deddf Addysg 1918, a oedd yn pennu maint dosbarthiadau, ar waith yng Nghymru a Lloegr mwyach. Mae'n rhaid pennu maint dosbarthiadau ar sail asesu risg, gan ystyried darpariaethau nifer o ddogfennau canllaw perthnasol, fel y Ddeddf Iechyd a Diogelwch (1974), Safon Brydeinig 4163:2007 ar ddiogelwch mewn dylunio a thechnoleg mewn ysgolion a chanllawiau perthnasol gan lywodraeth ac NUT Cymru. Mae cyflwyno dewis ehangach yn sgil cyflwyno Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi codi pryderon o fewn y llenyddiaeth (e.e. Estyn, 2010) ac yn adborth rhanddeiliaid am hyfywedd maint dosbarthiadau mewn rhai dosbarthiadau chwech ysgolion. Ar yr un pryd, mae yna enghreifftiau o arfer da mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, lle mae rhwydweithiau partneriaeth 14-19 yn cynnal archwiliadau, yn adolygu hyfywedd cyrsiau cyfredol a rhai arfaethedig, ac yn monitro ac, mewn rhai achosion, yn rhesymoli meintiau dosbarth bach.

*'Rhaid i'r egwyddorion sy'n sail i ddarpariaeth ôl-16 – ansawdd, deilliannau a phrofiad dysgwyr fod yn gadarnhaol a rhaid monitro hyn. Rydym yn paratoi adroddiad bob blwyddyn sy'n rhoi data gan ddefnyddio ALPS[1] a'r Arolwg Llais y Dysgwr. Rydym yn edrych ar drefniadau ariannu. Rydym yn cyfarfod â phrifathrawon a phenaethiaid ac yn gofyn cwestiynau treiddgar am berfformiad*

[1] System sydd ar gael yn fasnachol yw ALPS i fesur gwerth ychwanegol (canlyniadau i ddysgwyr gan ystyried cyrhaeddiad blaenorol a ffactorau eraill).

*cyrsiau. Rydym wedi dechrau proses felly os yw ysgol neu goleg am gynnig cwrs partneriaeth, rhaid iddynt lenwi ffurflen a chynnal asesiad o angen a chyflwyno achos busnes. Rydym yn edrych ar gyfraddau cwblhau/data ALPS/data cyrchfannau. Rydym yn edrych ar gyrsiau anhyfyw hefyd – mae 8-10 myfyriwr yn nifer hyfyw. Oherwydd natur wledig ein hardal – mae gennym dipyn o gyrsiau â 6-8. Rydym yn defnyddio system goleuadau traffig a bydd unrhyw gwrs â 6 myfyriwr yn goch.'*

Rhanddeiliad Allweddol 1

2.13 Yn gyffredinol, er bod tystiolaeth sylweddol am y maint delfrydol ar gyfer effeithlonrwydd a pherfformiad ar gyfer ysgolion a dosbarthiadau, nid yw wedi dod i gasgliad pendant i raddau helaeth.

**Dewis i ddysgwyr a Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009**

2.14 Roedd cyflwyno Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn sefydlu hawl i ddysgwyr 14-19 yng Nghymru ddewis dilyn cwrs astudio o gwricwlwm lleol. Ynghyd â model Trawsnewid ôl-16, sy'n rhoi pwyslais ar gydweithredu a chydweithio rhwng darparwyr i sefydlu rhwydweithiau o ddarparwyr dysgu ledled Cymru, ffocws y polisi yw gweithredu er lles dysgwyr. Mae disgwyl y bydd y cwricwlwm lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed yn cynnwys o leiaf 30 cwrs astudio, a rhaid i bump ohonynt fod yn gyrsiau galwedigaethol cymwys (Llywodraeth Cymru, 2014).

2.15 Mae tystiolaeth o nifer o gyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol wedi tynnu sylw at enghreifftiau o arfer arloesol mewn partneriaethau 14-19 lleol sydd wedi mabwysiadu'r Mesur Dysgu a Sgiliau a'r agenda Drawsnewid i gynnig cwricwlwm eang i fyfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys sefydlu byrddau partneriaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr awdurdod lleol, yn ogystal ag ysgolion a cholegau, amserlenni cyffredin a chyfleusterau trafnidiaeth helaeth i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth. Canfu McGhee (2010) fod cyflwyno hyfforddwyr dysgu yn ddatblygiad cadarnhaol. Yn ôl tystiolaeth Estyn i

Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae mwy o waith partneriaeth rhwng ysgolion a cholegau wedi esgor ar ragor o fanteision, yn cynnwys gwerth am arian, mwy o ddewis i ddysgwyr, a rhai pobl ifanc yn parhau i ddysgu pan allent fod wedi ymddieithrio o addysg (para. 101).

2.16 Yn 2010, nododd Estyn (2010a) mai dim ond nifer cyfyngedig o ysgolion a oedd yn gallu cyflawni gofynion ôl-16 y Mesur. Dywedwyd mai ysgolion mawr â dosbarthiadau chwech mawr oedd y rhain, tra na fyddai'r rhan fwyaf o ysgolion yn gallu darparu cyrsiau galwedigaethol sy'n gofyn am gyfleusterau arbenigol. Mae hyn yn awgrymu bod angen cydweithio, ac mae hynny, o ystyried cyfyngiadau o ran adnoddau, yn taflu amheuaeth ar ba mor ddichonadwy yw'r Mesur yn yr hirdymor. Nodwyd cynnal costau cludiant uchel er mwyn gallu cynnig cwricwlwm eang, ynghyd â thalu costau staff i gadw athrawon pynciau arbenigol a dosbarthiadau bach mewn sefydliadau unigol fel heriau mawr y dyfodol yn wyneb lleihad mewn cyllid. Er nad oes amheuaeth fod y Mesur wedi gwella'r dewis i ddysgwyr ac wedi sicrhau mwy o gydweithio rhwng darparwyr, mae gweithredu'r polisi wedi denu beirniadaeth hefyd. Nodwyd y canlynol hefyd:

- Roedd ystod a nifer y cyrsiau sydd ar gael yn amrywio gormod.
- Roedd gormod o gyrsiau yn anhyfyw, oherwydd niferoedd bach a dyblygu yn yr un ardal leol.
- Roedd diffyg gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd, sy'n golygu bod rhai pobl ifanc wedi aros yn eu hysgol leol, heb edrych yn fanwl ar opsiynau eraill a chael gwybodaeth amdanynt.
- Roedd rhai ysgolion yn gyndyn o gydweithio, yn sgil pryderon am golli myfyrwyr, cyllid a chadw athrawon.
- Nid oedd ansawdd a hyfywedd darpariaeth yn cael eu gwerthuso'n ddigonol.

2.17 Cadarnhawyd y canfyddiadau hyn yn adborth mwyafrif y rhanddeiliaid allweddol.

*'Mae yna ddyblygu darpariaeth gydag ysgolion a cholegau yn cynnig rhaglenni tebyg iawn. Dylid cael rhaglen ddi-dor. Ar hyn o bryd, mae rhai pobl ifanc yn dewis yr hyn sydd ar gael iddynt, yn hytrach na'r hyn sydd orau iddynt. Dylai'r ddarpariaeth fod o'r ansawdd cywir. Mae pobl ifanc angen gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd, gan ei bod hi'n ymddangos nad yw llawer o ysgolion yn hyrwyddo prentisiaethau. Mae angen gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar ddisgyblion iau hefyd, pan mae ganddynt yr amser i ystyried a chynllunio'u dewisiadau.'*

Rhanddeiliad Allweddol 6

2.18 Dywedodd McGee (2010) fod y costau cludiant a chostau cysylltiedig ychwanegol wedi bod yn drech ar y gwelliannau mewn effeithlonrwydd a gyflawnwyd trwy fwy o gydweithio yn y rhan fwyaf o leoliadau. Mae'n ymddangos fod canfyddiadau astudiaeth gan BMG Research (2003) yn cadarnhau hyn, gyda 20 y cant o ddysgwyr yn gorfod teithio i sefydliadau eraill, er mwyn cael at ddarpariaeth. Ar yr un pryd, fodd bynnag, dywedwyd bod y wybodaeth reoli am deithio gan ddysgwyr yn wan. Mae hyn cefnogi argymhelliad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylai Llywodraeth Cymru adolygu faint o deithio a chludiant sydd wedi digwydd yn uniongyrchol o ganlyniad i weithredu'r Mesur ac effaith y teithio a'r cludiant hynny.

2.19 Er i arolygiad ardal o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yn Sir y Fflint ganfod tystiolaeth o waith consortia cryf, a oedd yn cynnwys bodolaeth cytundebau lefel gwasanaeth cynhwysfawr ar gyfer sicrhau ansawdd, mewn tua chwarter yr ysgolion, roedd llai na phum dysgwr mewn cymaint â chwarter y dosbarthiadau ôl-16. Roedd dyblygu cyrsiau diangen i'w weld mewn ambell ysgol hefyd (Estyn, 2011).

2.20 Dywedodd llawer fod defnyddio dulliau amgen fel e-ddysgu ac athrawon symudol yn llai cyffredin na theithio gan ddysgwyr. Felly, nid yw'r gwaith o ymelwa ar y dulliau hyn, sy'n cynnig potensial enfawr mewn hinsawdd o adnoddau ariannol sy'n crebachu, wedi'i

ddatblygu'n llawn hyd yma. Canfuwyd enghreifftiau o ymarfer arloesol mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg (gweler para 2.3.1).

'*Dylid ymelwa ar e-ddysgu… Yr her yw bod angen i'r dechnoleg weithio o'r cychwyn cyntaf, er mwyn sicrhau profiad da i ddisgyblion ac osgoi edliw i'r awdurdod lleol. Rhaid ei fod yn ateb posibl… mae technoleg yn datblygu, felly hefyd gallu pobl ifanc i roi hyn ar waith.*'

Rhanddeiliad Allweddol 3

2.21 Yn hollbwysig, mae diffyg tystiolaeth gadarn am effaith cynnig dewis ehangach i ddysgwyr drwy ddarpariaeth gydweithredol ledled Cymru, o ran ei chyfraniad at wella cyfraddau cadw a chyrhaeddiad a lleihau absenoldeb a gwaharddiadau. Hefyd, dywedodd rhai rhanddeiliaid allweddol fod cynnal dolenni cydweithio rhwng darparwyr ôl-16 yn mynd yn anoddach mewn hinsawdd o lai o adnoddau a niferoedd myfyrwyr sy'n edwino. Ymhellach, mae tystiolaeth Estyn i Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn codi pryderon am hyfywedd parhaus y dolenni cydweithio cyfredol wrth i'r grant grebachu dros y blynyddoedd i ddod (para 4.2).

*'Mwy o ddewis – pa effaith mae hyn wedi'i chael ar y farchnad lafur? Does gennym ni ddim data go iawn.'*

Rhanddeiliad Allweddol 5

**Pontio'r bwlch rhwng dysgu academaidd a dysgu galwedigaethol**

2.22 Mae tystiolaeth ddiamheuol fod Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi cyflwyno ac ehangu mynediad at ddysgu galwedigaethol i fyfyrwyr chweched dosbarth. Mae hyn wedi'i gyflawni trwy gynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n cynnig eu detholiadau eu hunain o opsiynau galwedigaethol, a thrwy ysgolion a cholegau AB yn gweithio mewn partneriaeth.

2.23 Roedd tystiolaeth i'r Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn dweud bod rhai ysgolion yn cyfyngu ar eu harlwy galwedigaethol mewn meysydd cost uwch, ac ar yr un pryd, mae darpariaeth alwedigaethol rhai ysgolion yn cael ei hehangu. Er enghraifft, mae darpariaeth peirianneg ac adeiladu wedi lleihau a darpariaeth TG, gweinyddiaeth a chwaraeon wedi cynyddu (Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012).

2.24 Adroddodd Estyn (2005) fod trefniadau pontio rhwng ysgolion a cholegau AB yn wan. Cafodd y canfyddiad hwn ei gefnogi gan rai rhanddeiliaid allweddol, a soniodd am y diffyg trefniadau ffurfiol rhwng llawer o ysgolion a cholegau i helpu myfyrwyr i bontio, yn enwedig o ran rhannu gwybodaeth am faterion a allai olygu bod perygl i'r myfyriwr roi'r gorau i ddysgu. Disgrifiodd un ymatebydd sut mae disgwyl i fyfyrwyr sy'n gadael Blwyddyn 11, dros chwe wythnos o wyliau, 'sefyll ar eu traed eu hunain' ac maent mewn sefyllfa arbennig o fregus os ydynt yn gadael amgylchedd yr ysgol. Cafwyd enghraifft o arfer da mewn un ardal awdurdod lleol, lle mae systemau cadarn ar waith i helpu myfyrwyr Blwyddyn 11 i symud rhwng darparwyr ôl-16, yn cynnwys trefniadau dilynol parhaus i leihau'r tebygolrwydd y bydd myfyrwyr yn rhoi'r gorau i ddysgu. Mae trefniadau i gynorthwyo myfyrwyr 'mewn risg' neu ddifreintiedig wedi'u cryfhau hefyd, yn sgil cyflwyno'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Nghymru.

2.25 Mae rhwydweithiau 14-19 lleol a rhanbarthol wedi gwneud cyfraniad pwysig at gryfhau'r cysylltiadau rhwng dysgu academaidd a dysgu galwedigaethol, er nad oes gan y mwyafrif gyfrifoldeb strategol neu lywodraethol dros gomisiynu neu resymoli darpariaeth. Mae llawer o bobl ifanc a'u rhieni yn dal i fod o'r farn fod dysgu academaidd sy'n digwydd mewn chweched dosbarth traddodiadol yn cynnig darpariaeth a chyfleoedd o safon ac ansawdd uwch o gymharu â dysgu galwedigaethol mewn lleoliad AB. Yn ogystal, dywedwyd hefyd fod dysgu academaidd mewn amgylchedd AB yn dioddef o'r un broblem 'delwedd'.

‘*Yn (enw ardal), dwi ddim yn credu ein bod ni’n rhoi digon o ddewis i bobl ifanc. Rydym ni’n dweud y gallwch chi naill ai fynd i’ch dosbarth chwech neu AB - mae hyn wedi creu diwylliant lle os ydych chi’n glyfar, rydych chi’n aros yn eich dosbarth chewch, ac os nad ydych chi, yna rydych chi’n mynd i’r coleg. Mae hynny’n broblem.’*

Rhanddeiliad Allweddol 16

2.26 Roedd tystiolaeth a roddwyd i Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awgrymu bod safbwyntiau cymysg a chyferbyniol ynghylch a yw cyflwyno’r Mesur wedi gwella parch cydradd rhwng cyrsiau academaidd a galwedigaethol. Roedd consenswс cyffredinol nad oedd parch cydradd fel petai wedi’i gyflawni hyd yma (Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012).

Ym marn nifer o’r rhanddeiliaid allweddol, mae hyn yn dangos bod angen gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gwell ar gyfer pobl ifanc a’u rhieni, er mwyn chwalu’r tybiaethau negyddol a chamarweiniol am ystod ac ansawdd yr arlwy ôl-16 sydd ar gael o fewn a rhwng ardaloedd lleol. Hefyd, gyda’r gostyngiad mewn cyllid i dalu am arweiniad unigol mewn ysgolion gan Gyrfa Cymru, mae mwy o risg y bydd myfyrwyr yn rhoi’r gorau i ddysgu, ac mae’n bosibl mai’r ffaith nad yw’r rhan fwyaf o grwpiau’n gallu cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd sy’n rhannol gyfrifol am hyn.

*‘Yr ysgolion a’r colegau sy’n cael canlyniadau ôl-16 gwych yw’r rheini sydd â chymorth pwrpasol ar gyfer eu dysgwyr ôl-16 - hyfforddwyr neu athrawon lefel A da sy’n monitro targedau. Yr olrhain hyn sy’n gwneud y gwahaniaeth….. Fodd bynnag, rydym ni’n dychwelyd i’r hen ddyddiau drwg. Mae athrawon yn gorfod bod yn gynghorwyr gyrfaoedd ac nid oes ganddyn nhw’r sgiliau. All pobl ifanc ddim gwneud hyn ar-lein. Mae angen cymorth arnynt i fynd i’r gwefannau yn y lle cyntaf. Does gan ysgolion mo’r staff i wneud hynny na’r sgiliau’*

Rhanddeiliad Allweddol 2

### Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

2.27 Dywedodd Estyn (2005) fod gan ysgolion hanes da o ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, er mai ychydig iawn oedd yn cynnig cyrsiau galwedigaethol neu gymhwysol cyfrwng Cymraeg. Dywedodd Estyn (2008) nad oedd trosolwg o'r ystod o gyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sydd ar gael i ddysgwyr 14-19, a'r niferoedd sy'n eu hastudio, ac mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd nodi llinellau sylfaen a gosod targedau lleol a chenedlaethol. Roedd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn dweud y dylid casglu data am yr arlwy cyrsiau a'r nifer sy'n eu hastudio. Felly, ers 2010/11, mae'r data arlwy ar gyfer CA4 ac ôl-16 wedi'i gasglu ac mae'n parhau hyd heddiw. Mae'r data niferoedd ar gyfer CA4 wedi'i gasglu ers 2010/11 ac wedi parhau ar gyfer cyfrwng Saesneg tan 2013/14, ac mae'n parhau ar gyfer cyfrwng Cymraeg hyd heddiw. Mae Gyrfa Cymru Ar-lein yn coladu'r data ar ran Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, roedd prinder deunyddiau ac adnoddau addysgu cyfrwng Cymraeg. Yn aml, mae cyfleoedd i astudio cyrsiau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg yn lleihau yn ystod Cyfnod Allweddol 4 a mwy fyth mewn dosbarthiadau chwech. Priodolwyd hyn i brinder athrawon sydd â'r sgiliau i addysgu cyrsiau galwedigaethol a dosbarthiadau anhyfyw o fach.

2.28 Mae prinder athrawon medrus i addysgu cyrsiau galwedigaethol lefel uwch drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector AB yn parhau i fod yn dalcen caled, ynghyd â diffyg cymwysterau a phrinder dilyswyr ac adnoddau Cymraeg eu hiaith (Estyn, 2010). Mae hyn yn parhau i fod yn rhwystr i allu cynyddu nifer dysgwyr ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

2.29 Yn ôl tystiolaeth a roddwyd i'r Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn 2012, nid yw'r dewis o gyrsiau sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi ehangu i'r un graddau â darpariaeth cyfrwng Saesneg. Argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru a Colegau Cymru asesu'n gywir lefelau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn colegau AB a'r cyrsiau sy'n cael eu haddysgu gan ddarparwyr hyfforddiant. Dywedwyd bod 'sefydliadau addysg bellach

yn llusgo'u traed o ran hybu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg' (Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012, para. 109). Yn ôl Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Blynyddol 2014-15, roedd darparwyr AB a dysgu seiliedig ar waith wedi cwrdd â'u targedau ar gyfer 2015 o ran y gweithgareddau dysgu sy'n cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2015 (t. 26). Er hynny, mae'r targed yn isel iawn o hyd o gymharu â faint o weithgareddau sy'n cael eu cyflwyno gan ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

2.30 Roedd adborth rhanddeiliaid allweddol yn awgrymu bod y trefniadau cyfredol ar gyfer cyllido darpariaeth ôl-16 yn galluogi dosbarthiadau chwech cyfrwng Cymraeg i ffynnu mewn rhai ardaloedd. Rhoddwyd enghreifftiau o gydweithio arloesol rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael cwricwlwm eang. Roedd hyn yn cynnwys mwy o ddefnydd o athrawon symudol, cydweithio trawsffiniol rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a rhannu gwybodaeth ac arferion da (Estyn, 2010; McGee, 2010), gyda'r rhan fwyaf o hyn yn cael ei ariannu drwy gyllid datblygu 14-19. Mae tystiolaeth i Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awgrymu bod darparwyr cyfrwng Cymraeg yn fwy creadigol wrth fynd ati i fodloni'r gofyniad i gynnig 30 cwrs, yn rhannol oherwydd y pellter rhwng darpar bartneriaid (Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012).

*'Dosbarthiadau chwech yw gwarcheidwaid y Gymraeg ar ôl-16.'*

Rhanddeiliad Allweddol 7

2.31 Roedd adroddiad Llywodraeth Cymru (2004) yn argymell y dylai cynllunwyr y cwricwlwm yn lleol hybu mynediad at gyrsiau cyfrwng Cymraeg a'u bodolaeth drwy barhau i adeiladu ar y datblygiadau sydd wedi'u cyflawni gan awdurdodau lleol wrth ffurfio cwricwla lleol yng Nghyfnod Allweddol 4.

### Yr ardal leol – ffactorau trefol a gwledig

2.32 Mae daearyddiaeth Cymru, trefniadau llywodraeth leol cyfredol (sy'n cynnwys 22 awdurdod lleol gyda chynnig i leihau eu nifer yn y dyfodol) a'r ewyllys gwleidyddol i newid yn elfennau craidd yn y drafodaeth ynghylch sut mae darpariaeth ôl-16 (yn cynnwys dosbarthiadau chwech ysgolion) wedi'i threfnu ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae 'economi gymysg' o fewn a rhwng awdurdodau lleol, gyda dosbarthiadau chwech ysgolion, ffederasiynau a darpariaeth drydyddol yn bodoli ochr yn ochr. Mae darpariaeth AB yn gweithredu ar fodel rhanbarthol i raddau helaeth erbyn hyn, gyda nifer y colegau wedi'i resymoli yn y blynyddoedd diwethaf o 24 i 12 sefydliad. Mae'r trefniadau llywodraethu a rheoli ar wahân ar gyfer dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau AB yn creu cystadleuaeth ac, yn rhy aml, maent yn llesteirio ymdrechion i gael gwell effeithlonrwydd a pherfformiad mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.Yn ogystal, mae cymhellion a threfniadau cyllido sefydliadol yn aml yn mynd yn groes i gefnogi buddiannau dysgwyr unigol. Nododd Estyn (2006) nad oedd yna, ledled Cymru, yr un model o ddarpariaeth ôl-16 y gellid ei roi ar waith mewn unrhyw amgylchiadau. Felly, efallai y bydd angen cydweithredu, ad-drefnu a rhesymoli i sicrhau'r trefniant mwyaf effeithiol ac effeithlon. Awgrymodd mwyafrif y rhanddeiliaid allweddol fod angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o gyfeiriad o ran pennu strwythur darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 yn y dyfodol ac, yn hollbwysig, chwarae rôl strategol wrth weithredu newidiadau yn y dyfodol.

2.33 Cafwyd consensws yn y llenyddiaeth, ac ymhlith rhanddeiliaid allweddol, na fyddai modd rhoi model 'un ateb sy'n addas i bawb', fel trefniadau trydyddol, ar waith yn unffurf ledled Cymru. Er hynny, soniodd rhai ymatebwyr am enghreifftiau, fel ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent, lle'r oedd model trydyddol wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus. Roedd peth awydd i goladu data perthnasol i arddangos perfformiad y modelau cyflawni trydyddol lleol hyn. Dadleuwyd bod cyflwyno model trydyddol mewn ardal drefol yn fwy

cost-effeithiol, gan fod trefniadau teithio myfyrwyr yn tueddu i fod yn llai cymhleth ac roedd trefniadau trafnidiaeth gyhoeddus rhatach ar gael. Tynnwyd sylw at y ffaith hefyd, mewn ardaloedd lle'r oedd darpariaeth dosbarth chwech wedi newid i fodel trydyddol yng Nghymru, fod adeiladau a chyfleusterau newydd wedi'u darparu i gefnogi'r newid gan amlaf, gan felly leihau effaith negyddol cau dosbarthiadau chwech mewn ysgolion sy'n bodoli'n barod.

'*Y model cyllido sydd wrth galon hyn i gyd. Bydd ysgolion yn gyndyn iawn o newid. Mae gwersi cryf i'w dysgu o Ferthyr a Sir Benfro*.'

Rhanddeiliad Allweddol 5

2.34 Mae cludiant cael ei ystyried yn broblem sylweddol o hyd. Cyflwynodd Tribal (2014) opsiwn trydyddol yn ei adolygiad o ddysgu ôl-16 yn Sir Benfro. Byddai hyn wedi golygu rhoi'r holl ddarpariaeth ôl-16 yn nwylo'r coleg lleol, gydag ysgolion yn cael eu dynodi o'r newydd fel darparwyr addysg 11-16 oed. Diystyrwyd yr opsiwn hwn yn sgil ei effaith negyddol ar drefniadau teithio a chymunedol.

2.35 Mae'r gost, yr amser a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â chludo dysgwyr i ddarparwyr eraill, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn rhwystrau ymarferol i gydweithio a rhesymoli darpariaeth. Mae dysgu o bell, fideo-gynadledda a thiwtoriaid yn teithio rhwng safleoedd yn dechrau cael eu datblygu a'u gweithredu. Hefyd, nid yw eu heffeithiolrwydd neu sut maent yn gallu gwella gwerth am arian wedi cael eu harfarnu rhyw lawer. Mae setiau data cyffredin ar gyrhaeddiad, cyflawniad, cyfraddau gwahardd a chyfraddau cadw ar gyfer darpariaeth gydweithredol yn gyfyngedig. Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n gweithio ar draws mwy nag un rhwydwaith 14-19 (Estyn, 2010).

2.36 Dywedodd lleiafrif y rhanddeiliaid allweddol na ddylid defnyddio'r elfen wledig yng Nghymru fel esgus i ddiystyru, er enghraifft, model trydyddol. Gellid datblygu darpariaeth allgymorth i sicrhau darpariaeth ym mhob ardal leol. Hefyd, byddai'n haws mapio ac olrhain myfyrwyr ôl-16 pe baent i gyd gydag un darparwr. Dywedwyd bod rhai

awdurdodau lleol yn amharod i fynd ati i resymoli ysgolion, oherwydd gwrthwynebiad chwyrn gan gymunedau lleol a'u cynrychiolwyr gwleidyddol lleol. Hyd yn oed lle mae awdurdodau lleol wedi cau neu ad-drefnu ysgolion, dywed adroddiad gan Estyn nad yw'r ad-drefnu wedi digwydd ar yr un cyflymder â'r gostyngiad yn niferoedd myfyrwyr ysgolion ar y cyfan. Dywedwyd, heb gamau gweithredu pendant, y byddai'r broblem o leoedd gwag yn gwaethygu eto dros y pum mlynedd nesaf, gyda chost lle gwag yn dibynnu ar faint yr ysgol. Er bod awdurdodau lleol yn troi fwyfwy at ffederasiynau o ysgolion i wella effeithlonrwydd a lleihau costau cyflog, ni fydd y rhain yn cael gwared ar leoedd gwag nac yn lleihau'r angen i gynnal adeiladau aneffeithlon (Estyn, 2012b).

2.37 Dadleuodd Hill (2013) fod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn llesteirio datblygiad consortia rhanbarthol (i wella ysgolion) ac yn dyblygu eu swyddogaethau. Dywedwyd bod amwysedd ynghylch pa gorff sy'n gyfrifol am beth. Hefyd, mae'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd rhwng awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn 'niwlog'. Mae'r anawsterau a wynebwyd gan y trefniadau cynnydd i wella ysgolion drwy gonsortia addysg rhanbarthol yn cael eu tanlinellu gan y safbwyntiau a gyflwynir gan Swyddfa Archwilio Cymru (2015): 'Mae'r dulliau o lywodraethu'r consortia rhanbarthol yn datblygu ond canfuwyd bod strwythurau rheoli anghyflawn, gwendidau o ran rheoli ariannol a rheoli perfformiad a methiant i fod yn ddigon agored a thryloyw yn amharu ar y datblygiad.' (para: 11).

## 3. Opsiynau ar gyfer symud ymlaen

3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno ystod o opsiynau posibl ar gyfer sicrhau newid i wella perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech yng Nghymru. Yr opsiynau hyn, sy'n deillio o archwiliad cychwynnol o'r llenyddiaeth, yw:

- Cadw pethau fel ag y maent
- Gweithredu cynigion ffiniau rhanbarthol, er mwyn gweithredu arlwy ôl-16 'cyson' rhwng ardaloedd
- Gweithredu model trydyddol y gellir ei addasu ledled Cymru
- Mabwysiadu dull wedi'i deilwra er mwyn diwallu anghenion gwahanol awdurdodau lleol

3.2 Maent yn cynnwys llu o bosibiliadau ar gyfer gwaith cynllunio'r dyfodol, yn amrywio o: cadw pethau fel ag y maent; mabwysiadu model rhanbarthol, sy'n adlewyrchu datblygiad polisi mewn meysydd allweddol eraill, yn cynnwys gwella ysgolion yn fwyaf arbennig; ehangu rolau a chyfrifoldebau mewn partneriaethau lleol, yn ogystal â'r opsiwn mwyaf eithafol oll, sef cyflwyno model trydyddol ledled Cymru. Maent yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru eisoes, yn ogystal â'r systemau ar gyfer darparu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, sydd dan ofal y sector cyhoeddus yng ngwledydd eraill yr UE. Ni chafodd yr opsiynau o fodel lle mae'r sector cyhoeddus/preifat yn darparu mewn partneriaeth na dull ymddiriedolaeth ysgol gydweithredol (awgrym Hill (2013)) eu cyflwyno, oherwydd diffyg tystiolaeth ddibynadwy am eu perfformiad hirdymor mewn cyd-destunau eraill ac, yn hollbwysig, eu cymhwysedd. Er mwyn mabwysiadu un o'r opsiynau hyn (partneriaethau cyhoeddus/preifat neu ymddiriedolaethau ysgol) yn gwbl hyderus, byddai angen adolygiad cynhwysfawr o rôl y sector cyhoeddus mewn darpariaeth addysg ledled Cymru, yn ogystal ag arfarniad llawn o fanteision ehangach cynnwys partneriaid eraill.

3.3 Wrth symud ymlaen, bydd angen i ba fodel bynnag gaiff ei fabwysiadu fod yn seiliedig ar egwyddorion arweiniol craidd. Ar sail tystiolaeth yr astudiaeth hon, dylai'r egwyddorion hyn gynnwys:

- Y gydnabyddiaeth nad oes modd rheoli darpariaeth dosbarth chwech ledled Cymru yn annibynnol ar bob dim arall. Yn hytrach, dylai fod yn elfen allweddol o **system ddysgu ôl-16 integredig**, sy'n croesawu ac yn cydnabod darpariaeth alwedigaethol ac academaidd yn yr un modd.
- Rhaid i'r system roi **anghenion y dysgwr** yn gyntaf. Dylai pob person ifanc yng Nghymru gael y cyfle a'r gallu i wireddu ei lawn botensial.
- Sefydlu **mecanweithiau cyllido ôl-16** sy'n dileu'r potensial ar gyfer: creu a chynnal cystadleuaeth rhwng darparwyr; dyblygu cyrsiau; dysgwyr 'yn sefyll yn eu hunfan', h.y. galluogi pobl ifanc i ailadrodd cyrsiau ar yr un lefel; a chroes-gymorthdalu rhwng cyllid cyn-16 ac ôl-16. Gall pob un o'r materion hyn weithio yn erbyn buddiannau dysgwyr a llesteirio'u cynnydd.
- Gweithredu **mesurau perfformiad wedi'u safoni** ar gyfer pob darparwr ôl-16.
- Opsiynau galwedigaethol ac academaidd ar bob lefel ar gael ac yn hygyrch i bobl ifanc o fewn **darpariaeth cyfrwng Cymraeg**.
- Pobl ifanc yn gallu cael **gwybodaeth, cyngor ac arweiniad di-duedd** i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu dysgu ôl-16.
- **Deilliannau cyflawniad** ledled dysgu ôl-16 sy'n cydnabod perthnasedd a chymhwysedd cymwysterau i'r byd gwaith, yn ogystal â hybu ac ehangu mynediad at addysg bellach ac addysg uwch.

3.4 Bydd tystiolaeth o fesuriadau a deilliannau, o ran i ba raddau mae'r egwyddorion arweiniol yn cael eu cyflawni, yn seiliedig ar y canlynol:

- Effeithlonrwydd a pherfformiad dosbarthiadau chwech unigol yn cael eu cydnabod yn ehangach, fel rhan o system integredig o ddarpariaeth dysgu ôl-16 mewn ardal neu leoliad penodol.
- Mwy o gydweithio a gwaith partneriaeth rhwng darparwyr ôl-16, yn cynnwys rhannu'r defnydd o e-ddysgu ac adnoddau addysgu symudol.
- Cyfraddau is o fyfyrwyr yn rhoi'r gorau i ddysgu a chyfraddau dilyniant gwell, a fydd yn dangos bod dysgwyr yn gwneud dewisiadau seiliedig ar wybodaeth a phriodol.
- Llai o bobl nad ydynt mewn gwaith, addysg nac hyfforddiant.
- Mwy o ymgysylltiad â'r farchnad lafur leol a'r byd gwaith, a fydd yn dangos ymrwymiad i sicrhau parch cydradd rhwng llwybrau dysgu academaidd a rhai galwedigaethol.

3.5 Mae'r bocsys canlynol yn cynnwys elfennau allweddol pob un o'r pedwar opsiwn, ynghyd â rhestrau o ffactorau a thybiaethau sy'n cefnogi eu mabwysiadu, yn ogystal â'r rheini sy'n awgrymu bod angen pwyll. Mae'r tybiaethau hyn yn deillio o'r adolygiad llenyddiaeth ac adborth rhanddeiliaid. Mae'r rhai sy'n deillio o'r llenyddiaeth yn unig wedi'u lliwio'n llwyd golau, ac mae'r rhai sy'n deillio o randdeiliaid yn unig wedi'u lliwio'n llwyd tywyll.

| Opsiwn 1: Cadw’r status quo |
|---|
| **Elfennau Allweddol**<br>Cadw’r nifer presennol o ysgolion dosbarth chwech a darparwyr AB<br>Parhau i gyflawni’r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)<br>Rheoli’r boblogaeth ôl-16 sy’n lleihau o fewn y trefniadau presennol<br>Codi cyfraddau cadw a chyflawni ôl-16 o fewn y trefniadau presennol, ar yr un pryd â chyflwyno dull mwy cyson o fesur perfformiad<br>Cadw’r partneriaethau a chysylltiadau cydweithio sy’n bodoli eisoes<br>Sicrhau’r defnydd o adnoddau cyfredol mewn dosbarthiadau chwech, ar yr un pryd â chaniatáu ar gyfer datblygiadau newydd o ran e.e. cyfleusterau TG a gallu o ran athrawon symudol. |
| ***Tystiolaeth ategol***<br>• Mae’r rhwydweithiau sy’n deillio o’r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn gweithio er budd dysgwyr.<br>• Mae’r system gyfredol yn rhoi dewis a chymorth i ddysgwyr.<br>• Mae’r ddarpariaeth gyfredol yn cynnig amgylchedd dysgu parhaus sy’n rhoi cyfle i bobl ifanc ddatblygu ac aeddfedu.<br>• Mae cau dosbarthiadau chwech wedi arwain at lai o ddysgwyr agored i niwed yn aros mewn addysg ôl-16, a chyfraddau uwch o bobl ifanc yn rhoi’r gorau i ddysgu yng nghanol cyrsiau.<br>• Byddai rhesymoli dosbarthiadau chwech yn ddrud oherwydd logisteg cludiant i’r ysgol.<br>• Mae’r trefniadau presennol yn caniatáu i ddosbarthiadau chwech cyfrwng Cymraeg i ffynnu, gyda chymorth cydweithio trawsffiniol yn y rhan fwyaf o ardaloedd.<br>• Byddai cau dosbarthiadau chwech yn arwain (yn y rhan fwyaf o achosion) at wrthwynebiad lleol.<br>• Y ffactorau sy’n cyfrannu at wella cyfraddau cadw a chyflawni ymysg pobl ifanc 16-19 oed yw:<br>    ◦ Pwyslais ar gymorth i fyfyrwyr.<br>    ◦ Trefniadau mentora estynedig.<br>    ◦ Staff addysgu craidd ar gyfer myfyrwyr 16-19 oed yn unig.<br>    ◦ Pwyslais ar gyngor ac arweiniad gofalus a thrylwyr cyn dechrau astudio.<br>• Gall ysgolion sy’n cydweithio fod yn hyfyw ac yn gost-effeithiol.<br>• Gall dosbarthiadau chwech bach arbenigo mewn darpariaeth gyfyngedig.<br>• Dosbarthiadau chwech ysgolion sy’n addysgu hanner y bobl ifanc<br>• Mae gan ysgolion â dosbarth chwech ansawdd a safonau uwch yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, gan gynnig parhad a dilyniant, a statws uwch tybiedig.<br>• Byddai rhieni a phobl ifanc yn gwrthwynebu, ac yn teimlo dan fygythiad, pe bai darpariaeth wedi’i chanolbwyntio mewn sefydliadau mawr ‘tebyg i rai AB’. |
| ***Heriau***<br>• O gymharu â darparwyr AB, nid oes gan ysgolion gymaint o gymhellion i fod yn ddarbodus.<br>• Gall ysgolion wneud arbedion sylweddol drwy gydweithio mwy. |

- Gellir gwella effeithlonrwydd drwy ad-drefnu'r ddarpariaeth dysgu mewn ardal.
- Mae'r dewis o gyrsiau a nifer y cyrsiau sydd ar gael o fewn a rhwng ardaloedd lleol yn amrywio gormod o hyd.
- Nid yw mwy o ddewis o reidrwydd yn arwain at wella safonau cyflawni.
- Mae rhai ysgolion yn cyfyngu ar eu harlwy galwedigaethol mewn meysydd cost uchel, ar yr un pryd ag ehangu darpariaeth arall.
- Nid yw'r dewis o gyrsiau cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu cymaint â darpariaeth cyfrwng Saesneg
- Mae diffyg gwybodaeth, cyngor ac arweiniad di-duedd.
- Mae cyrsiau'n cael eu dyblygu'n ddiangen.
- Mae cwtogi cyllidebau a thueddiadau demograffig yn golygu bod rhaid rhesymoli ysgolion.
- Mae angen tystiolaeth fwy diweddar am y maint y mae angen i ddosbarth chwech fod er mwyn bod yn hyfyw.
- Mae dosbarthiadau chwech bach yn tueddu i fod â chostau disgybl uwch na rhai mwy o faint.

| **Opsiwn 2: Mabwysiadu dull wedi'i deilwra er mwyn diwallu anghenion gwahanol ardaloedd awdurdod lleol** |
|---|
| **Elfennau Allweddol**<br>Adolygu ac arfarnu'r trefniadau presennol o fewn a rhwng awdurdodau lleol, er mwyn canfod ffyrdd o gyflawni arbedion maint a mwy o werth am arian.<br>Sicrhau bod darpariaeth newydd yn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd gan ddosbarthiadau chwech eisoes, ar yr un pryd â chaniatáu datblygiadau newydd o ran e.e. cyfleusterau TG a gallu o ran athrawon symudol.<br>Symud tuag at un prosbectws ôl-16 ar gyfer 'ardal ranbarthol' a gweithdrefn ymgeisio gyffredin i sicrhau bod pobl ifanc yn cael at am yr holl ddarpariaeth sydd ar gael.<br>Datblygu, o fewn ardaloedd â ffiniau newydd, 'ganolfannau rhagoriaeth' ar gyfer dysgu ôl-16 (ysgolion ac AB, er mwyn cysoni darpariaeth a chynyddu cyrhaeddiad.<br>Adolygu trefniadau cyllido a strwythurol ôl-16, er mwyn canfod ffyrdd o leihau cystadleuaeth rhwng darparwyr ôl-16.<br>Darparu achos economaidd neu gymdeithasol dros gadw dosbarthiadau chwech bach, yn seiliedig ar asesiad o anghenion daearyddol sy'n ystyried iaith a ffydd.<br>Rheoli ac ymgysylltu ag anghenion a gofynion y gymuned leol drwy ymgynghori a threfniadau llywodraethu.<br>Ehangu partneriaethau a chysylltiadau cydweithio ymhellach. |
| ***Tystiolaeth ategol***<br>• Byddai dull wedi'i deilwra yn atal amrywiadau o ran perfformiad a gofynion.<br>• Mae llai o gyllid a chohort o bobl ifanc ôl-16 sydd ar drai yn golygu bod angen rhoi ystyriaeth briodol i resymoli darpariaeth dosbarth chwech.<br>• Byddai cyfuno darpariaeth ôl-16 mewn nifer llai o ganolfannau rhagoriaeth yn cynnig 'allbwn cyfartal'.<br>• Byddai ymyriadau a chydgysylltu effeithiol yn lleol yn 'rheoli'r farchnad'.<br>• Byddai ad-drefnu'r ddarpariaeth dysgu mewn ardal yn gwella effeithlonrwydd.<br>• Byddai cyrff cynllunio lleol yn sicrhau mwy cyllid ar gyfer darpariaeth cyn-16 ac ôl-16.<br>• Dylai fod rhagor o gymorth a chymhellion i annog ysgolion a cholegau i gydweithio'n agosach er mwyn ehangu dewis.<br>• Dylai unrhyw newid adlewyrchu anghenion cymunedau lleol a daearyddiaeth.<br>• Mae newid llwyddiannus wedi'i gyflwyno lle mae ALlau wedi ysgwyddo rôl strategol wrth sefydlu cysylltiadau cydweithio rhwng ysgolion (a cholegau AB) i hyrwyddo arlwy ôl-16 cyson.<br>• Y ffactorau sy'n cyfrannu at wella cyfraddau cadw a chyflawni ymysg pobl ifanc 16-19 oed yw:<br>    ◦ Pwyslais ar gymorth i fyfyrwyr.<br>    ◦ Trefniadau mentora estynedig.<br>    ◦ Staff addysgu craidd ar gyfer myfyrwyr 16-19 oed yn unig. |

- Pwyslais ar gyngor ac arweiniad gofalus a thrylwyr cyn dechrau astudio.
- Nid oedd dull ffederal wedi llwyddo i wella allbynnau ansawdd.
- Mae ffederasiynau a phartneriaethau ysgol ffurfiol eraill yn rhoi llwyfan cryf ar gyfer cynyddu ymreolaeth a chyrhaeddiad ysgolion.
- Mae'n bosibl bod creu nifer o golegau (rhanbarthol) mawr wedi gwneud darparwyr AB yn llai ymatebol i anghenion lleol.

***Heriau***

- Nid yw mecanweithiau ariannu cyfredol yn helpu ysgolion a cholegau i gydweithio.
- Mae'r system o ddirprwyo cyllidebau ac awdurdod yn arwain at ddiogelu ymreolaeth gorfforaethol. Mae ysgolion a cholegau yn amddiffynnol hefyd.
- Yn sgil diffyg gwybodaeth, cyngor ac arweiniad di-duedd, mae dysgwyr yn dilyn y cyrsiau sydd ar gael yn eu hysgol bresennol.
- Mae rhai awdurdodau yn gyndyn o resymoli ysgolion, oherwydd gwrthwynebiad gan gymunedau a gwleidyddion.
- Nid oes gan rai awdurdodau lleol yr awdurdod na'r ewyllys gwleidyddol i newid darpariaeth dosbarth chwech.
- Nid oes gan y rhan fwyaf o bartneriaethau lleol gyfrifoldebau strategol am lywodraethu, rheoli ansawdd a chomisiynu darpariaeth.
- Yr angen i sicrhau na fyddai newidiadau yn cael effaith negyddol ar argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg; nifer y dysgwyr sy'n dewis parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg; a'r gallu i ddysgwyr astudio mewn amgylchedd Cymraeg.
- Mae ffactorau daearyddol yn dylanwadu ar batrwm darpariaeth ôl-16, ond nid ydynt o reidrwydd yn pennu sut ddylai edrych.
- Mae'r meini prawf gwahanol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i ddyrannu cyllid yn gwneud dyfarniadau am werth am arian mewn perthynas â maint ysgol yn llai sicr.
- Nid yw rhwydweithiau 14-19 lleol yn rheoli cyllid craidd.
- Nid yw ad-drefnu, ar y cyfan, wedi digwydd mor gyflym â'r gostyngiad mewn niferoedd o fewn ysgolion.
- Mae angen llywodraethu ffurfiol er mwyn i bartneriaeth gael sylwedd a pharhad.

| **Opsiwn 3: Gweithredu'r cynigion ffiniau rhanbarthol, er mwyn cyflwyno arlwy ôl-16 'cyson' rhwng ardaloedd lleol** |
| --- |
| **Elfennau Allweddol**<br><br>Cynnal adolygiad o ddarpariaeth dosbarth chwech ac AB ym mhob awdurdod lleol, i fynd i'r afael â: a) dyblygu darpariaeth; b) problemau gydag amserlenni a chludiant; c) grwpiau bach eu maint; ch) codi cyrhaeddiad ac ystyried proffiliau cyflawni rhanbarthol.<br><br>Darparu achos economaidd neu gymdeithasol dros gadw ysgolion dosbarth chwech sydd â llai o fyfyrwyr na'r hyn y cytunwyd i'w ragnodi'n genedlaethol, ar sail asesiad o anghenion crefyddol, ieithyddol a/neu ddaearyddol.<br><br>Datblygu 'canolfannau rhagoriaeth' dysgu ôl-16 (ysgolion ac AB) o fewn ardaloedd a thu allan i ardaloedd, er mwyn cysoni darpariaeth a chodi cyrhaeddiad.<br><br>Adolygu trefniadau cyllido a strwythurol ôl-16, er mwyn canfod ffyrdd o leihau cystadleuaeth rhwng darparwyr ôl-16.<br><br>Manteisio ar bartneriaethau a chysylltiadau cydweithio sy'n bodoli eisoes.<br><br>Rhoi cyfrifoldeb strategol dros gomisiynu a rhesymoli darpariaeth i bartneriaeth ranbarthol, er mwyn sicrhau arbedion lleol ac ymateb yn well i anghenion economaidd a chymdeithasol lleol.<br><br>Sicrhau'r defnydd o adnoddau presennol (cyhyd â phosibl), ar yr un pryd â chaniatáu ar gyfer datblygiadau newydd o ran e.e. cyfleusterau TG a gallu o ran athrawon symudol. |
| ***Tystiolaeth ategol***<br><br>• Byddai rhannu cyfrifoldeb ar draws awdurdodau lleol yn cael gwared ar gystadleuaeth am ddysgwyr, gwrthanogaeth i gydweithio a gwrthwynebiad ysgolion a rhieni.<br>• Mae gwaith rhanbarthol wedi arwain at fwy o gydweithredu a chydweithio.<br>• Roedd adroddiad Williams[2] yn argymell lleihau nifer yr awdurdodau lleol.<br>• Mae angen cymorthdaliadau sylweddol ar sefydliadau sydd â chryn dipyn yn llai na 200 o fyfyrwyr lefel 'A'.<br>• Mae llai o gyllid a chohort o bobl ifanc ôl-16 sydd ar drai yn golygu bod angen rhoi ystyriaeth briodol i resymoli darpariaeth dosbarth chwech<br>• Y ffactorau sy'n cyfrannu at wella cyfraddau cadw a chyflawni ymysg pobl ifanc 16-19 oed yw:<br>    ◦ Pwyslais ar gymorth i fyfyrwyr.<br>    ◦ Trefniadau mentora estynedig.<br>    ◦ Staff addysgu craidd ar gyfer myfyrwyr 16-19 oed yn unig. |

[2] Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. (2014). *Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus: Adroddiad Llawn*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

- Pwyslais ar gyngor ac arweiniad gofalus a thrylwyr cyn dechrau astudio.
- Bydd darpariaeth fwy cyson ar draws ffiniau.

***Heriau***

- Mae myfyrwyr dosbarth chwech yn aros yn yr un ysgol am eu bod yn adnabod y staff ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.
- Mae'r gost, yr amser a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â chludo dysgwyr i ddarparwyr eraill yn llesteirio cydweithio a rhesymoli darpariaeth. Hefyd, nid yw effeithiolrwydd y dull hwn wedi cael ei arfarnu rhyw lawer.
- Hyd nes y cyflwynir dull safonol cenedlaethol o fesur effaith (e.e. perfformiad mewn arholiadau), mae trafodaethau am effeithiolrwydd neu berfformiad yn parhau'n anodd.
- Nid yw modelau cyfredol o waith rhanbarthol wedi cael fawr o effaith.
- Mae gan ddosbarthiadau chwech hunaniaeth gref yn eu cymunedau lleol.
- Yr angen i sicrhau na fyddai newidiadau yn cael effaith negyddol ar argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg; nifer y dysgwyr sy'n dewis parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg; a'r gallu i ddysgwyr astudio mewn amgylchedd Cymraeg.
- Mae rhai ALlau yn llesteirio datblygiad consortia rhanbarthol ac yn dyblygu eu swyddogaethau.
- Mae strwythurau rheoli anghyflawn, gwendidau o ran rheoli ariannol a rheoli perfformiad a methiant i fod yn ddigon agored a thryloyw yn amharu ar gonsortia addysg rhanbarthol (Swyddfa Archwilio Cymru).
- Mae awdurdodau lleol yn parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol, gan wanhau awdurdod cyrff rhanbarthol.
- Mae diffyg arweinyddiaeth yn golygu bod newid darpariaeth ôl-16 ar draws ardal ddaearyddol yn anodd.

| Opsiwn 4: Gweithredu model trydyddol addasadwy ledled Cymru |
|---|
| **Elfennau Allweddol**<br>Dylunio model trydyddol a fydd yn cael ei addasu a'i fabwysiadu gan bob awdurdod lleol er mwyn diwallu anghenion lleol.<br>Bydd trefniadau cyd-lywodraethu rhwng dosbarthiadau chwech a cholegau AB yn cael eu datblygu a'u gweithredu.<br>Gall trefniadau gynnwys clystyrau o ysgolion yn uno ac yn gweithredu gydag un darparwr AB.<br>Gall trefniadau rheoli fod yng ngofal pob awdurdod lleol a chynnwys cynrychiolwyr o ysgolion a cholegau ar yr uwch dîm, fel rhan o Fwrdd Dysgu ôl-16 yn lleol.<br>Cronni cysylltiadau partneriaeth a chydweithio.<br>Sicrhau bod darpariaeth newydd yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sy'n bodoli eisoes (hyd y bo'n bosibl), ar yr un pryd â chaniatáu datblygiad newydd o ran e.e. cyfleusterau TG a gallu o ran athrawon symudol. |
| ***Tystiolaeth Ategol***<br>• Y ffactorau sy'n cyfrannu at wella cyfraddau cadw a chyflawni ymysg pobl ifanc 16-19 oed yw:<br>a) Pwyslais ar gymorth i fyfyrwyr.<br>b) Trefniadau mentora estynedig.<br>c) Staff addysgu craidd ar gyfer myfyrwyr 16-19 oed yn unig.<br>d) Pwyslais ar gyngor ac arweiniad gofalus a thrylwyr cyn dechrau astudio.<br>• Gall darpariaeth drydyddol gael ei rhoi ar waith mewn ardal leol drwy uno dosbarthiadau chwech bach, a chyflwyno cyfleusterau newydd yn agos at ddarpariaeth AB, gan felly gynnig amrywiaeth o opsiynau dysgu galwedigaethol.<br>• Mae llai o gyllid a chohort o bobl ifanc ôl-16 sydd ar drai yn golygu bod angen rhoi ystyriaeth briodol i resymoli darpariaeth dosbarth chwech.<br>• Roedd cyflwyno model trydyddol mewn ardal drefol yn fwy cost-effeithiol, gan fod trefniadau teithio myfyrwyr yn tueddu i fod yn llai cymhleth a'i bod yn haws cael at drafnidiaeth gyhoeddus ratach.<br>• Mae yna enghreifftiau o arfer da lle mae model trydyddol wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus, fel Merthyr Tudful a Blaenau Gwent.<br>• Yn Lloegr, mae colegau chweched dosbarth yn fwy tebygol o gyflawni lefelau uwch o gyrhaeddiad na chweched dosbarth ysgolion a gynhelir annetholus.<br>• Gallai darparwyr ôl-16 mawr gynnig darpariaeth academaidd a galwedigaethol. |
| ***Heriau***<br>• Ni all un model o ddarpariaeth ôl-16 fod yn gymwys o dan bob amgylchiadau.<br>• Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i gwrdd â'r gofynion o ran seilwaith.<br>• Mae chweched dosbarth ysgolion yn uchel eu parch yn eu cymunedau lleol.<br>• Byddai angen i'r meini prawf ystyried sefydliadau cyfrwng Cymraeg a |

sefydliadau seiliedig ar ffydd.

- Yr angen i sicrhau na fyddai newidiadau yn cael effaith negyddol ar argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg; nifer y dysgwyr sy'n dewis parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg; a'r gallu i ddysgwyr astudio mewn amgylchedd Cymraeg.
- Diffyg awydd gwleidyddol o bosibl yn lleol ac yn genedlaethol i gyflwyno newid mor eithafol i addysg ôl-16 ledled Cymru.
- Dylai rhaglenni ad-drefnu ysgolion ganolbwyntio'n bennaf ar welliannau i ysgolion yn hytrach nag ymarfer rheoli adnoddau sy'n annibynnol ar fuddiannau dysgwyr (Estyn, 2012).
- Maint ysgolion sy'n cael y dylanwad mwyaf ar fyfyrwyr difreintiedig.
- Diffyg tystiolaeth gadarn am berfformiad a deilliannau addysgol mewn darpariaeth drydyddol.
- Diffyg cefnogaeth eang ar gyfer yr opsiwn hwn.
- Byddai cludiant yn broblem sylweddol o hyd.
- Byddai natur wledig yr ardal a chost yn cyflwyno anawsterau.

# 4. Casgliadau ac argymhellion

4.1 Diben yr ymchwil hwn oedd paratoi papur sy'n cyflwyno'r opsiynau posibl sydd gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech yng Nghymru, yn seiliedig ar adolygiad o'r dystiolaeth gadarn ddiweddaraf. Roedd hyn yn cynnwys arfarniad o lenyddiaeth a dogfennau polisi perthnasol, yn ogystal â chasglu adborth a barn amrywiaeth o randdeiliaid allweddol.

4.2 Mae'r astudiaeth graddfa fach hon wedi esgor ar nifer o ganfyddiadau a materion. Yn fwyaf arbennig, mae wedi tynnu sylw at y canlynol:

- Nid yw nifer, perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech wedi bod yn destun adolygiad strategol cenedlaethol dros nifer o flynyddoedd.
- Mae diffyg tystiolaeth gadarn yn y llenyddiaeth i ategu'r syniad nad yw chweched dosbarth â llai na 150 o fyfyrwyr (myfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13) yn hyfyw. Roedd y ffigur hwn yn deillio o gyfrifiadau a wnaed yn y 1990au ac mae'n bryd ei ailasesu.
- Mae cysylltiad cryf rhwng risg uwch o groes-gymhorthdalu o weddill y gyllideb ysgol a chynnal dosbarthiadau chwech bach. Mae angen cynnal asesiad pellach o effaith lleihau'r adnoddau a ddyrennir i ddisgyblion ysgol iau o dan yr amgylchiadau hyn, yn ogystal â dichonoldeb y dull hwn yn yr hirdymor.
- Mae'r llenyddiaeth academaidd helaeth ar faint delfrydol dosbarthiadau ac ysgolion yn anwybyddu i bob pwrpas y lleoliad ôl-16 ac mae'n ymddangos bod consensws bod adnoddau yn rhoi canlyniadau mwy effeithlon mewn meysydd fel cynyddu effeithiolrwydd athrawon.
- Mae angen diffinio a monitro'n ofalus y termau 'perfformiad' ac 'effeithlonrwydd', ynghyd â sut y gweithredir y farchnad addysg ôl-16, i sicrhau nad yw anghenion a chyrhaeddiad dysgwyr unigol yn cael eu disodli gan waith gosod targedau gan sefydliadau a chystadleuaeth o fewn a rhwng darparwyr gwahanol.

- Er nad oes amheuaeth fod Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (2009) wedi rhoi mwy o ddewis i ddysgwyr ôl-16 ac, mewn sawl ardal, wedi arwain at fwy o gydweithio rhwng ysgolion a cholegau, mae prinder tystiolaeth gadarn o hyd i ddangos ei fod wedi gwella cyfraddau cadw a chyrhaeddiad yn y sector ôl-16. Yn ogystal, rhaid cwestiynu cost uchel cynnal y Mesur, yn enwedig o ran costau cludiant yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ynghyd â thystiolaeth o ddyblygu cyrsiau a dosbarthiadau o faint anghynaliadwy.
- Nid oes sôn yn y llenyddiaeth am ffactorau sydd angen eu hystyried mewn perthynas â dewisiadau seiliedig ar ffydd.
- Mae bylchau sgiliau ac adnoddau wrth addysgu cyrsiau galwedigaethol lefel uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rhoddwyd enghreifftiau o gydweithio arloesol rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu elwa ar gwricwlwm eang. Dylai defnydd effeithiol o athrawon symudol, cydweithio trawsffiniol rhwng ysgolion a rhannu gwybodaeth ac arfer da gael eu mabwysiadu'n ehangach.
- Mae bylchau yn y dystiolaeth o'r adolygiad o lenyddiaeth am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â: phrinder athrawon ac adnoddau eraill mewn pynciau galwedigaethol a sut gellid llenwi'r bwlch hwn, er enghraifft, drwy gymhellion ariannol, addysg athrawon a hyfforddiant yn y swydd; ehangu dysgu seiliedig ar waith a sut gellir ehangu digon ar ymgysylltiad cyflogwyr a phrentisiaethau a'u gwneud yn ddeniadol i bobl ifanc a chyflogwyr; gwella nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau arholiadau (yn hytrach nag astudio cyrsiau) a sut gellir gwella poblogrwydd a phroffil darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach yn y sector ôl-16 a thu hwnt, yn cynnwys gweithio'n agosach gyda rhieni.
- Mae toriadau i wasanaethau cynghori a ddarperir gan Gyrfa Cymru wedi arwain at fwy o bryder ynghylch gallu llawer o fyfyrwyr i gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd i'w cynorthwyo gyda'u cynllunio ôl-16, ynghyd â phryder am allu llawer o athrawon i gyflawni'r gofyniad hwn.

- Mae angen mwy o gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru o ran pennu strwythur darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 yn y dyfodol ac, yn hollbwysig, o ran ysgwyddo rôl strategol wrth weithredu newidiadau yn y dyfodol.

4.3 Elfen allweddol o'r gwaith hwn oedd pennu a phrofi nifer o opsiynau posibl i newid y ffordd y caiff addysg chweched dosbarth ei chyflwyno gyda nifer o randdeiliaid allweddol. Dyma'r opsiynau a bennwyd fel posibiliadau:

1. *Cadw'r status quo*

   Roedd yr adborth a gafwyd yn awgrymu'n gryf, mewn hinsawdd o leihau cyllidebau a chyfyngiadau ariannol, nad yw cynnal a datblygu'r trefniadau cyfredol yn opsiwn bellach. Fodd bynnag, mae 'ble' mae angen newid a 'beth' sydd angen ei newid a sut bydd hyn yn cael ei gyflawni yn llai syml.

2. *Gweithredu'r cynigion ffiniau rhanbarthol, er mwyn cyflwyno arlwy ôl-16 'cyson' rhwng ardaloedd lleol*

   Er y byddai model rhanbarthol yn cyd-fynd â datblygiadau polisi diweddar o ran ad-drefnu llywodraeth leol a gwella ysgolion, mae'r strwythurau rheoli cyfredol, pwerau statudol ac, yn hanfodol, yr amserlenni ar gyfer gweithredu newid effeithiol, wedi cael eu beirniadu'n hallt. Nid oedd gan fodelau cyflawni rhanbarthol blaenorol ar gyfer darpariaeth 14-19 yr hawliau statudol angenrheidiol i sicrhau bod y newidiadau gofynnol yn cael eu rhoi ar waith. Byddai angen i hyn fod yn sail i unrhyw ddull rhanbarthol.

3. *Gweithredu model trydyddol addasadwy ledled Cymru*

   Roedd pawb yn gytûn, o ystyried daearyddiaeth Cymru a phatrymau'r ddarpariaeth gyfredol, y byddai'n anodd iawn rhoi un ateb sy'n addas i bawb ar waith.

   Er bod model trydyddol wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus mewn rhannau o Gymru, mae hyn wedi tueddu i fod mewn ardaloedd trefol, lle mae mynediad a chludiant yn rhatach ac yn haws. Hefyd, er mwyn lleihau effaith cau dosbarthiadau chwech

mewn ardaloedd lle mae model trydyddol wedi'i gyflwyno, mae cyfleusterau ac adeiladu newydd wedi'u darparu ochr yn ochr â'r newid. Yn amlwg, mae'n ymddangos bod y costau cyfalaf a gwleidyddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r model hwn ledled Cymru yn rhy uchel.

4. *Mabwysiadu dull wedi'i deilwra sy'n diwallu anghenion gwahanol ardaloedd awdurdod lleol*

Yn y tymor byr, mae'n ymddangos mai dull ardal leol yw'r ffordd fwyaf dichonadwy o gyflwyno unrhyw newidiadau. O ran strategaeth bolisi, bydd hi'n bwysig, yn y cychwyn cyntaf, pennu a ddylai adolygiadau a newidiadau gael eu gweithredu ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth yn unig neu i ddarpariaeth ôl-16 yn ei chyfanrwydd.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod dull integredig, sy'n cynnwys y ddarpariaeth ôl-16 yn gyfan, yn cyflwyno'i hun fel y ffordd fwyaf cytbwys ymlaen. Er y gellid ystyried y model hwn fel 'mwy o'r un fath', o ran ei fod yn cyd-fynd â ffiniau awdurdodau lleol fel ag y maent ar hyn o bryd, dylai gael ei weithredu gan bartneriaethau 'ardal leol',  sy'n cael eu harwain gan yr awdurdod lleol neu gan gorff arall, a dylent gynnwys y prif bartneriaid strategol ôl-16, er mwyn sicrhau cydweithio, atebolrwydd ac arlwy ôl-16 lleol cyson.

Mae perygl y gallai model partneriaeth leol wrthdaro ag unrhyw gynigion yn y dyfodol i ailstrwythuro trefniadau llywodraeth leol yng Nghymru. Er hynny, mae'n annhebygol y bydd trefniadau llywodraeth leol yn a) yn cael eu diddymu'n llwyr a b) yn colli eu cyfrifoldeb statudol dros ddarpariaeth addysg yn lleol. Mae'r newid disgwyliedig yn awgrymu y bydd cyfanswm yr awdurdodau lleol yn lleihau. Os bydd llywodraeth leol yn cael ei had-drefnu, byddai unrhyw drefniadau partneriaeth ôl-16 lleol a oedd yn cael eu cynllunio, eu cyflwyno neu eu gweithredu yn cael eu rhesymoli i adlewyrchu'r newidiadau yn strwythur ac atebolrwydd trefniadau llywodraeth leol newydd. Mae newidiadau posibl i lywodraeth leol

yn ategu'r cynnig na ddylai'r awdurdod lleol presennol o reidrwydd arwain partneriaethau ôl-16 lleol.

Dyma'r nodweddion hanfodol y bydd eu hangen i fod yn sail i ddull o'r fath:

- Adolygiad gan Lywodraeth Cymru o'r cymhellion ariannol sy'n cael eu talu i ysgolion a cholegau a dileu (hyd y bo'n bosibl) yr anghysonderau a'r gwrthanogaethau mewn systemau talu cyfredol;
- Gosod targedau ar gyfer dileu lleoedd gwag, gwella deilliannau cymwysterau a lleihau dyblygu darpariaeth, gydag amserlenni cytûn pendant ar gyfer cyflawni targedau.

**Ymchwil y Dyfodol**

4.4 Mae datblygu polisi arloesol ac effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Mae cynnal yr astudiaeth hon wedi tynnu sylw at fylchau yn y dystiolaeth ac enghreifftiau o arfer gorau lle gellir dysgu gwersi gwerthfawr. Mae awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r gwendidau hyn yn cynnwys:

- Datblygu data cymaradwy ar gyfer ysgolion a cholegau ar gyfraddau cadw, cwblhau a chyrhaeddiad, gan ddefnyddio meincnodau cyffredin.
- Casglu tystiolaeth ar faint o groes-gymorthdalu rhwng dosbarthiadau chwech a gweddill cyllideb yr ysgol sy'n digwydd mewn ysgolion ac effaith hynny ar ddysgwyr a deilliannau.
- Edrych ar y posibilrwydd o ymelwa rhagor ar e-ddysgu a monitro'i effaith ar gyfraddau cadw a chyrhaeddiad myfyrwyr.
- Coladu tystiolaeth yn ymwneud â ffactorau y mae angen eu hystyried mewn perthynas â dewisiadau seiliedig ar ffydd.
- Pennu arfer da drwy gynnal astudiaeth achos o ardaloedd awdurdod lleol lle mae'r arlwy ôl-16 wedi cael ei gysoni.
- Dysgu gwersi o ysgolion cyfrwng Cymraeg y nodwyd eu bod yn gweithredu arfer da drwy sefydlu cysylltiadau cydweithio trawsffiniol a manteisio ar botensial e-ddysgu a'r defnydd o athrawon symudol.
- Mynd i'r afael â bylchau yn y dystiolaeth o'r adolygiad llenyddiaeth am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â: phrinder athrawon ac adnoddau eraill mewn pynciau

galwedigaethol a sut gellid llenwi'r bwlch hwn; sut gellir gwella poblogrwydd a phroffil darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach yn y sector ôl-16 a thu hwnt, yn cynnwys gweithio'n agosach gyda rhieni.

## Llyfryddiaeth

*O Chwiliadau Llenyddiaeth Llywodraeth Cymru*

Allen, N. (2012) *Success rates and inspection outcomes: a research paper for the Sixth Form Colleges Forum.* Cymdeithas y Colegau Chweched Dosbarth.

Allen, N. (2013) *Beyond the Sixth Dimension: The understanding performance in sixth form colleges project report 2013.* Cymdeithas y Colegau Chweched Dosbarth.

Altinok, N., a Kingdon, G. (2009) *New Evidence on Class Size Effects: A Pupil Fixed Effects Approach*.

Archer, J. a Berger, N. (2013) *Exploring the motivations and future plans of senior students in a high and a low SES school.* Australian Association for Research in Education.

Y Comisiwn Archwilio. (1996) *Trading Places. The Supply and Allocation of School Places*. London: Audit Commission.

Y Comisiwn Archwilio. (2002) *Trading Places: A Review of Progress on the Supply and Allocation of School Places*. Llundain: Y Comisiwn Archwilio.

Y Comisiwn Archwilio. (2009) *Valuable lessons. Improving economy and efficiency in schools*. Llundain: Y Comisiwn Archwilio.

Y Comisiwn Archwilio. (2011a) *Classroom deployment*. *Better value for money in schools.* Llundain: Y Comisiwn Archwilio.

Y Comisiwn Archwilio. (2011b) *Curriculum Breadth*. *Better value for money in schools.* Llundain: Y Comisiwn Archwilio.

Y Comisiwn Archwilio. (2011c) *An overview of school workforce spending. Better value for money in schools*. Llundain: Y Comisiwn Archwilio.

Babatunde, M.M., ac Olanrewaju, M.K. (2014) Class size and school climate as correlates of secondary school students' scholastic achievement in Itesiwaju Local Government Area of Oyo State, Nigeria. *International Journal of Research.* 1 (4). t.149-165.

Barnett, R.R., Glass, C.J., Snowdon, R.I. a Stringer, K.S. (2002) 'Size, Performance and Effectiveness: Cost-Constrained Measure of Best-Practice Performance and Secondary-School Size'. *Education Economics*. 10 (3). t.291-311.

Blatchford,P., Bassett, P., a Brown, P. (2008) Do low attaining and younger students benefit most from small classes? Results from a systematic observation study of class size effects on pupil classroom engagement and teacher pupil interaction*. American Educational Research Association Annual Meeting*. Efrog Newydd. p.1-29.

Blatchford, P., Goldstein, H., a Mortimore, P. (1998) Research on class size effects: a critique of methods and a way forward. *International Journal of Educational Research*. (29) t.691-710.

BMG Research. (2103) *Llwybrau Dysgu 14-19: Adolygiad o deithio i ddysgwyr*. Caerdydd: Llywodraeth.

Briggs, A.R.J. (2004) 'Finding the niche? Competition and collaboration for sixth form colleges'. *Education + Training*. 46 (3). t. 119-126.

Cabral, S. (2012) Which students decide to enrol in a new school sixth form and what course choices/changes affect them in year 12? In Learning Plus UK and the Institute of Education. (2012) *Promoting Excellence in Leadership 14-19: Final research*. Llundain: Institute of Education.

Conlon, G., a Halterbeck, M. (2014) *Assessing value for money in Sixth Form education: Final report for the Sixth Form Colleges' Association*. Llundain: London Economics.

Cotton, K. (1996) *School Size, School Climate, and Student Performance*. The Rural School and Community Trust. Washington DC.

